

Pecyn adnodd dysgu Siambr Gladdu Neolithig

Cyfnod Allweddol 2

Llythrennedd, Rhifedd, Cerddoriaeth, Celf,
TGCh, ABCh, Cwricwlwm Cymreig

AD
G
S
D



Cysylltiadau gyda'r Cwricwlwm:

Llythrennedd — llafaredd, datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau

Rhifedd — sgiliau mesur a data

Cerddoriaeth — cyfansoddi, perfformio

Celf — sgiliau ac ystod

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu — canfod a dadansoddi gwybodaeth; creu a chyfathrebu gwybodaeth

Addysg Bersonol a Chymdeithasol — datblygiad moesol ac ysbrydolt

Cwricwlwm Cymreig — ymweld â safleoedd hanesyddol, defnyddio arteffactau, gwneud cymariaethau rhwng y gorffennol a'r presennol, a datblygu dealltwriaeth o sut mae'r rhain wedi newid dros amser

Safleoedd claddu Neolithig yng ngofal Cadw:

Siambr gladdu Barclodiad y Gawres, Ynys Môn

Siambr gladdu Bodowyr, Ynys Môn

Beddrod Cyntedd Bryn Celli Ddu, Ynys Môn

Siambr gladdu Capel Garmon, Conwy

Siambr gladdu Carreg Coetan Arthur, Sir Benfro

Siambr gladdu Din Dryfol, Ynys Môn

Siambr gladdu Dyffryn Ardudwy, Gwynedd

Siambr gladdu Llugwy, Ynys Môn

Beddrod Siambr Parc le Breos, Abertawe

Siambr gladdu Pentre Ifan, Sir Benfro

Siambr gladdu Prysaeddfed, Ynys Môn

Siambr gladdu Llwyneliddon, Bro Morgannwg

Siambr gladdu Tinkinswood, Bro Morgannwg

Siambr gladdu Trefignath, Ynys Môn

Siambr gladdu Tŷ Newydd, Ynys Môn

Mae'r holl siambrau claddu Neolithig yng ngofal Cadw yn safleoedd agored, ac nid oes raid archebu ymweliadau o flaen llaw. Rydym yn argymhell bod athrawon yn ymweld i gynllunio cyn mynd â grwpiau i siambr gladdu, gan nad yw'r trefniadau parcio a chael mynediad bob amser yn rhwydd.



Disgyblion yn ail-greu seremoni gladdu Neolithig yn siambr gladdu Tinkinswood, Bro Morgannwg

Y Cyfnod Neolithig

Yn ystod y cyfnod Neolithig y dechreuodd pobl ffermio a dysgu sut i dyfu a chynhyrchu yn hytrach na hela a chasglu eu bwyd. Caiff y cyfnod ei ystyried yn eang fel un o'r trobwyntiau mwyaf yn hanes dynoliaeth. Mae'r cyfnod Neolithig yng Nghymru yn cwmpasu'r cyfnod o 4000–2500 CC, sef tua 6000 o flynyddoedd yn ôl.

Daeth y ffermwyr cyntaf â chyndeidiau gwartheg, defaid a geifr gyda nhw o Ffrainc. Cafodd moch domestig eu magu o faeddod gwyllt a oedd yn byw yng nghoedwigoedd Cymru.

Mae defaid, geifr a gwartheg yn hoffi dail a rhisgl, a moch yn snwffian o amgylch y gwreiddiau. Gallai'r anifeiliaid domestig hyn fod wedi cyfrannu'n gwneud cyfraniad mawr at glirio ardaloedd anferth o goedwigoedd trwchus a oedd yn gorchuddio'r rhan fwyaf o Gymru.

Cyflwynwyd newidiadau technolegol yr adeg hon hefyd, a gellir gweld hyn yn y diwylliant materol. Er enghraifft, ni wnaed crochenwaith cyn hyn, ac roedd offer fflint yn adlewyrchu'r angen bellach am offer casglu grawn, fel crymannau. Am y tro cyntaf, adeiladwyd strwythurau parhaol ar gyfer y byw a'r meirw.

Nodweddir arferion claddu'r cyfnod gan yr arfer o gladdu pobl gyda'i gilydd mewn cofadeiladau mawr; gweladwy iawn gyda'r rhan fwyaf o'r gweddillion sydd wedi eu cloddio o'r cyfnod yn dangos eu bod yn seremonïol neu'n angladdol eu natur.

Y Cyfnod Neolithig Cynnar (6000-5200 o flynyddoedd yn ôl)

Dechreuodd cofadeiladau cyd-gladdu mawr ymddangos ledled Prydain yn y cyfnod hwn.

Roeddynt yn cynrychioli cysylltiad parhaol rhwng y gymuned, yr hynafiaid marw, a'r tir a feddiannwyd ganddynt. Enghraifft dda yw siambwr gladdu Tinkinswood yn y de-ddwyrain.

Fel arfer, roedd tai'r meirw yn fwy parhaol na tai'r byw, gan fod eu cyndeidiau'n cynrychioli'r gymuned a'r siambrau claddu'n gysegrau i'r bodau goruwchnaturiol hyn.

Roedd yr arddull yn amrywio o un rhan o'r wlad i'r llall:

- Yn ardal Cotswolds-Hafren, mae siambrau cerrig mewnol wedi'u lleoli o dan dwmpathau ar ffurf lletem gyda chalchfaen lleol. Er enghraifft, beddrodau siambwr Tinkinswood a Chwm Parc le Breos yn y De.
- Yng ngorllewin Cymru, dolmenni porth a chromlechi

a welir yn bennaf, yn cynnwys siambrau carreg mawr wedi'u gorchuddio â phridd neu dwmpathau cerrig o bosibl. Enghraifft dda yw Pentre Ifan yn Sir Benfro.

- Ar Ynys Môn rydym yn ffodus bod gennym ddau feddrod cyntedd, Bryn Celli Ddu a Barclodiad y Gawres. Mae'r math hwn o feddrod yn debyg i enghreifftiau yn Iwerddon, a dyma'r arddull a welwyd ar yr Ynys Werdd yn bennaf.



Beddrod cyntedd Bryn Celli Ddu, Ynys Môn

Dechreuodd rhai beddrodau fel dolmenni porth, fel Pentre Ifan, cyn cael eu coethi a'u hadeiladu ymhellach gan genedlaethau'r dyfodol, felly mae'n debyg y gallai fod wedi edrych yn debychach i Tinkinswood. Roedd llawer wedi'u hadeiladu mewn sawl cam.

Yr elfen fwyaf rhyfeddol o adeiladu beddrod fyddai codi'r maen capan. Hyd yn oed heddiw, mae'r cerrig rhydd anferth hyn yn destun rhyfeddol. Mae'r ffaith fod gorchestion o'r fath wedi'u cyflawni o gwbl, heb sôn eu bod wedi para bron i 6,000 o flynyddoedd, yn glod i beirianeg Oes y Cerrig.

Mae'r dechnoleg oedd ar gael i'r peirianwyr hyn yn ymddangos yn elfennol heddiw, ond does dim dwywaith ei bod yn ddigon ar gyfer y dasg. Gellid defnyddio cerrig i godi lefelau'r tir; i ddarparu sylfeini ac i weithredu fel pwysau. Gellid defnyddio coed ar gyfer fframweithiau, liferi ac arwynebau rampiau, a rhaffau o ffibr planhigion neu wyddfid i ddal cyfarpar adeiladu yn ei le.

Efallai i'r beddrodau gael eu defnyddio at sawl diben, nid claddu'r meirw yn unig, yn yr un modd ag y mae eglwys yn fwy na dim ond lle i gladdu. Fodd bynnag, y brif swyddogaeth fel y gwelir yn y cofnod archeolegol oedd claddu gweddillion dynol. Gan amlaf, roedd y beddrodau hyn yn cynnwys sawl corff, roedd tua 50 yn Tinkinswood — dynion, menywod a phlant.

Mae'n bosibl fod esgryn y bobl a oedd wedi'u claddu yn y beddrodau'n gweld golau dydd a'u defnyddio mewn seremonïau. Gallai hyn egluro pam bod ysgerbydau'n anghyflawn, gyda dim ond llond llaw o esgryn ar gael ar gyfer rhai pobl i'w gweld. Rhaid cofio y gallai fod ystyr arbennig neu ledrithiol yn gysylltiedig â'r llond llaw o esgryn hyn.

Mae'n bosibl bod siambrau claddu'n cael eu cadw i bobl bwysig, ond hwyrach eu bod yn cael eu defnyddio am resymau eraill hefyd. Efallai fod rhywun yn cael ei ddewis am resymau arbennig — am fod yn ddyn hysbys, yn siaman neu'n wraig hysbys, er enghraifft — neu'n rhywun a oedd yn cynrychioli grŵp teuluol; neu wedi marw mewn ffordd benodol.

Yn aml byddai siambrau Neolithig yn cynnwys crochenwaith wedi torri ac ambell lestr, darnau o fflint wedi'u naddu neu offer carreg ac, yn fwy anarferol, darn o asgwrn wedi'i naddu, fel pin asgwrn, a allai fod wedi ei ddefnyddio i gau cot ledr.

Y Cyfnod Neolithig Diweddar (5500-4700 o flynyddoedd yn ôl)

Cafwyd newid yn arferion claddu Ynys Môn a mannau eraill tua'r adeg hon. Crëwyd beddrodau cyntedd Megalithig yn y Gogledd, fel yn Iwerddon a gogledd a gorllewin yr Alban. Yr enwocaf yng Nghymru yw Bryn Celli Ddu ar Ynys Môn. Newgrange yw'r enwocaf yn Iwerddon a Maes Howe yn yr Alban. Maent



Carreg addurnedig Bryn Celli Ddu

yn cynnwys siambrau ar ddiwedd cynteddau o garreg, wedi'u gorchuddio â thwmpathau crwn mawr o bridd.

Mae celf ar y cerrig hyn yn nodwedd gyffredin, patrymau geometrig fel rheol, wedi'u cuddio'n fwriadol weithiau.

Mae nodweddion seryddol i'w gweld yn aml hefyd. Er enghraifft, mae Bryn Celli Ddu wedi'i adeiladu i gyd-fynd â'r hirddydd haf, sef diwrnod hiraf y flwyddyn.

Siambrau claddu Neolithig fel adnodd addysg

Mae safleoedd claddu Neolithig yn fannau delfrydol ar gyfer ymchwiliadau a phrosiectau addysgol. Mae'r ffaith nad yw'r holl atebion gennym yn golygu bod y mannau hyn yn fannau diddorol i ddisgyblion ymchwilio a darganfod beth wyddom amdanynt a'r bobl a'u hadeiladodd. Mae cyfle iddynt hefyd ddychmygu ac ail-greu'r hyn na wyddom trwy brosesau creadigol fel gwneud cerddoriaeth, perfformiadau dawnys a chelf.

Mae gweddillion safleoedd claddu yn fannau delfrydol ar gyfer dysgu yn yr awyr agored, a hefyd yn ysgogiad gwybodaeth ar gyfer dysgu yn y dosbarth. Mae maint a natur theatrig safleoedd claddu Neolithig yn eu gwneud yn fannau diddorol ac ysgogol i ddysgwyr eu harchwilio, ac mae astudio'r mannau hyn yn cefnogi'r broses o addysgu ystod eang o sgiliau. Mae ymgysylltu â'r mannau hyn hefyd yn helpu dysgwyr i werthfawrogi a deall eu treftadaeth, a'r safleoedd eu hunain, yn well.

Mae safleoedd Neolithig yn cynnig cyfleoedd arbennig ar gyfer ymholiad oherwydd:

- Maen nhw'n fannau dirgel, sy'n eu gwneud yn addas ar gyfer cwestiynu penagored, trafodaeth a datblygiad sgiliau meddwl.
- Heb os, maen nhw'n fannau theatrig, yn aml gyda phriodweddau acwstig da iawn, sy'n eu gwneud yn fannau gwybodaeth ar gyfer perfformiadau sy'n integreiddio cerddoriaeth a drama.
- Maen nhw'n rhan o dreftadaeth ddiwylliannol a threftadaeth adeiledig Cymru, ac mae enghreifftiau i'w gweld ar hyd a lled y wlad.
- Maen nhw'n aml i'w canfod mewn lleoliadau gwledig a natur yn eu hamgylchynu, sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr ystyried sut mae'r dirwedd wedi newid dros amser.
- Fe'u hadeiladwyd fel mannau defod sanctaidd, ac o'r herwydd, maen nhw'n fannau sy'n ysbrydoli archwiliad o'r cwestiynau mawr y mae pobl wedi'u gofyn ers y dechrau.
- Fe'u hadeiladwyd gan y ffermwyr cyntaf. Bydd astudiaeth o ddulliau, planhigion ac anifeiliaid fferm Neolithig a rhai modern a chymariaethau rhyngddynt, yn arwain yn naturiol at ystyried materion cynaliadwyedd.
- Mae nifer o'r safleoedd yn gysylltiedig â chwedloniaeth leol a hynny'n rhoi cyfle i archwilio mythau a chwedlau, straeon a diwylliant traddodiadol Cymru, a hanes mwy diweddar yr ardaloedd lleol o amgylch y safleoedd.

Pam defnyddio safleoedd Neolithig, sain a cherddoriaeth fel ysgogiad ar gyfer dysgu?

Mae safleoedd Neolithig yn rhan o'n treftadaeth, ond gan eu bod yn hŷn na'r gair ysgrifenedig, nid oes unrhyw ddogfennau i esbonio eu diben neu ddefnydd yn y cyfnod Neolithig. Mae safleoedd Neolithig, felly, yn fannau dirgel sy'n rhoi ffocws rhagorol i weithgareddau addysg creadigol yn yr awyr agored, lle gall disgyblion ddychmygu eu hunain yn teithio'n ôl mewn amser.

Mae dysgu yn yr awyr agored yn rhan allweddol o addysg yng Nghymru, ac mae cydran Cwricwlwm Cymreig statudol y cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru yn cydnabod pwysigrwydd treftadaeth ac ymdeimlad o hunaniaeth ar ddatblygiad plentyn.

Mae pwysigrwydd addysg cerddoriaeth wedi'i gydnabod trwy hanes; mae addysgwyr o Plato i Rousseau a Dewey i Hume oll wedi cyfeirio at rinweddau cerddoriaeth ar ddatblygiad plentyn.

Mae creadigrwydd hefyd yn bwysig yn natblygiad plant, ac mae canolbwyntio ar eu hynafiaid a safleoedd treftadaeth lleol yn sicrhau bod creadigrwydd yn y cyd-destun hwn yn berthnasol i ddysgwyr; a hynny'n rhoi gwerth addysgol pellach iddynt. Mae hefyd yn galluogi'r dysgwyr i gymryd rhan mewn archaeoleg arbrofol, ac i ymgysylltu gyda'r safleoedd treftadaeth sanctaidd hyn mewn ffyrdd newydd ac ystyrlon.

Mae'r gweithgareddau a awgrymir yn yr adnodd hwn yn cefnogi Fframwaith Sgiliau'r Cwricwlwm Cenedlaethol i Gymru, ac yn cynnwys gweithgareddau

datrys problemau sy'n gofyn am waith tîm, dyfalbarhad, dychmyg, sylw i fanylion a sgiliau llafaredd lefel uchel, gan gynnwys meithrin sgiliau gwranddo.

Mae academyddion wedi awgrymu bod pobl Neolithig yn rhoi llawer mwy o bwys ar fyd sain nag a wnawn ni heddiw. Mae'n bosibl bod gan bob sain arwyddocâd a phŵer tu hwnt y peth ffisegol a oedd yn gyfrifol am gynhyrchu'r sain. Efallai bod byd sain yn cael ei ystyried yn borth i'r byd ysbrydol. Byd o hud a lledrith!

Mae'n anodd iawn canfod lle yn y byd modern sy'n hollol rydd o sŵn traffig. Mae sŵn awyrennau i'w clywed mewn mannau anghysbell. Yn ystod y cyfnod Neolithig, byddai seinwedd (synau'r amgylchedd) y rhan fwyaf o fannau wedi bod yn wahanol iawn i seinweddau heddiw.

Mae bodau dynol o bob diwylliant y gwyddom amdano yn y gorffennol a'r presennol wedi creu a pherfformio cerddoriaeth. Mae cyfansoddi cerddoriaeth wedi'i hysbrydoli gan y safle, o bosibl i'w pherfformio yn y safle fel rhan o berfformiad defodol sy'n defnyddio'r math o offerynnau a fyddai'n gyfarwydd i bobl Neolithig — drymiau, offerynnau taro a chwythbrennau syml — yn galluogi pob disgybl i ymgysylltu gyda'r gorffennol ac i archwilio sut i gyfleu emosiynau trwy gerddoriaeth.

Mae'r rhan fwyaf o safleoedd Neolithig mewn lleoliadau gwledig, a chan fod llai o lygredd sŵn yn y mannau hyn, mae cyfle i ddysgwyr wrando ar synau'r amgylchedd ac ymgysylltu â natur mewn ffordd sy'n wirioneddol aml-synhwyrol. Efallai bod y ffocws hwn hefyd yn adlewyrchu profiadau ein cyndadau Neolithig.



Pobl ifanc yn cymryd rhan mewn perfformiad Neolithig

Gweithgareddau Cyn Ymweliad

Activity 1 — Creu map meddwl i gynhyrchu cwestiynau gan ddysgwyr ar gyfer trafodaeth

Gofynnwch i'r disgyblion dynnu llun o'r siambr Neolithig rydych yn ei hastudio yng nghanol darn o bapur.

Gofynnwch i'r disgyblion feddwl am gymaint o gwestiynau â phosibl mewn perthynas â'r siambr gladdu Neolithig, ac ysgrifennu eu cwestiynau ar ganghennau sy'n dod o'u darlun, i wneud map meddwl neu ddiagram corryn. Mae'n bosibl ystyried y cwestiynau canlynol os yw rhai disgyblion angen ysgogiad:

Gallai'r grŵp neu'r dosbarth wedyn benderfynu pa gwestiynau fyddai modd eu hateb trwy ymweld â'r safle, a pha rai fyddai angen ymchwil pellach i'w hateb.

Gallai'r disgyblion gynhyrchu ail fap meddwl o gwestiynau am y cyfnod Neolithig, a'r ffocws ar agweddau eraill ar fywyd Neolithig. Gallai'r cwestiynau hyn ffurfio sail ar gyfer ymchwiliad hanesyddol, ac mae'n bosibl i'r cwestiynau hefyd ysgogi cwestiynau am gymdeithas gyfoes.

Siambrau Neolithig

Pam gawsant eu hadeiladu?

Sut cawsant eu hadeiladu?

Beth oedd eu diben?

Pwy wnaeth eu hadeiladu?

Pam fod rhai ohonynt wedi'u hadeiladu yn unol â heuldroadau'r haf a'r gaeaf?

Pam fod esgryn y meirw yn cael eu cymysgu?

Beth gredai pobl Neolithig oedd yn digwydd pan fyddai'r corff yn marw?

Beth oedd eu credoau ynghylch Duw a'r bywyd tragwyddol?

Sut gwyddon ni?

Pobl Neolithig

Pwy oedd y bobl Neolithig?

Faint o bobl oedd yn byw yng Nghymru adeg honno?

O ble ddaethant?

Sut dechreuodd ffermio yng Nghymru?

Pam fod pobl wedi dewis bod yn ffermwyr?

Pam ddechreuon nhw greu celfyddyd haniaethol?

Pam eu bod yn torri eu llestri'n fwriadol?

Sut gwyddon ni?



Siambr Gladdu Llwyneliddon, Bro Morgannwg. Dim ond y siambr sydd ar ôl

Trafodaethau dosbarth

Mae pob safle claddu Neolithig yn unigryw, ond mae yna nodweddion cyffredin sy'n briodol i'r rhan fwyaf ohonynt, a gellid trafod y rhain cyn ymweld â siambr gladdu.

1. Mae'n ymddangos bod siambrau claddu Neolithig wedi cael eu hadeiladu mewn mannau a ddewiswyd yn arbennig oherwydd eu safle yn y dirwedd. Er enghraifft, yn edrych allan ar y môr, mewn dyffryn, ger afon, ayyb. Tybed ydy'r disgyblion yn gallu awgrymu pam y dewiswyd lleoliad y safle Neolithig y maen nhw'n ei astudio?
2. Fe'u defnyddiwyd fel siambrau claddu i'r meirw.
3. Gadawyd i'r cyrff ddadelfennu i ffwrdd o'r siambr cyn y byddai'r esgyrn yn cael eu casglu a'u rhoi yn y siambr.
4. Mae ysgerbydau cyfan wedi'u darganfod mewn rhai siambrau claddu Neolithig, ond yn amlach na pheidio, mae esgyrn nifer o bobl yn cael eu darganfod yn y siambrau. Tybed ydy'r disgyblion yn gallu awgrymu rhesymau am hyn?
5. Nid mannau ar gyfer gweddillion y meirw yn unig oedd y mannau hyn; roeddynt hefyd yn fannau ar gyfer cynnal defodau a seremonïau.
6. Byddai crochenwaith yn aml yn cael ei dorri'n fwrriadol ac yna'i gladdu yn y siambrau.
7. Mae rhai siambrau yn cynnwys ysgythriadau o gelfyddyd haniaethol wedi'u cerfio yn y cerrig. Tybed ydy'r disgyblion yn gallu awgrymu beth mae'r gelfyddyd yn ei gynrychioli?
8. Adeiladwyd siambrau claddu Neolithig mewn amrywiaeth o arddulliau. Mae archaeolegwyr wedi categorio'r siambrau yn ôl eu dyluniad. Gallai disgyblion ymchwilio ac amlinellu prif nodweddion pob un o'r categorïau canlynol:
 - beddrodau llys
 - beddrodau portal
 - beddrodau tramwy

Trafodaeth athronyddol mewn ymateb i siambrau claddu Neolithig

Mae ymweld â siambr gladdu Neolithig a dysgu am y ffyrdd y gallai pobl fod wedi defnyddio'r mannau hyn yn y gorffennol yn lle da fel man cychwyn ar gyfer ystyried cwestiynau athronyddol ynghylch credoau. Gallech ddefnyddio rhai o'r cwestiynau canlynol i ysgogi trafodaethau dosbarth.

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng gwrthrych materol a pherson?

Allai deunyddiau materol fyth fod mor werthfawr â phobl?

Beth yw enaid?

A oes gan anifeiliaid eneidiau?

Beth sy'n digwydd pan fyddwn yn marw?

Pam ddylen ni gofio'r meirw?

A oes bywyd tragwyddol?

Sut byddech chi'n teimlo ynghylch torri eich eiddo mwyaf gwerthfawr?

Beth yw ffydd?

Ydy hi'n bosibl profi bod Duw yn bodoli neu ddim yn bodoli?

A yw Duw yn wrywol, yn fenywol neu'n rhywbeth arall?

A yw'n bosibl cael mwy nag un Duw?

Ble mae Duw?

A fyddai'r byd/bobl yn bodoli heb Dduw?

Sut dylen ni gyfathrebu gyda Duw?



Actor yn chwarae cymeriad Neolithig ac yn chwarae fflwt asgwrn. Y fflwt yw'r offeryn cerdd hynaf i'w ganfod mewn siambr gladdu yng Nghymru

Gweithgareddau ar y safle

Gweithgaredd mesur

Gallai disgyblion amcangyfrif uchder, lled a dyfnder pob un o'r cerrig mawr a ddefnyddiwyd yn y siambr gladdu.

Gallai disgyblion wedyn ddefnyddio ffyn metr a thapiau mesur i fesur y cerrig, gan gydweithio i fesur pob carreg o'r manau uchaf a lletaf. Ydy'r disgyblion yn gallu awgrymu sut byddai'r bobl Neolithig wedi symud pob carreg i'w lle, gan ddefnyddio pridd, cerrig, coed ac efallai rhaff neu grwyn anifeiliaid yn unig?

Gweithgaredd ymchwilio aliniad

Gallai disgyblion ganfod yn fras beth yw aliniad cwmpawd y fynedfa i'r heneb Neolithig (gogledd, de, dwyrain neu orllewin)? Gallai disgyblion ddefnyddio cwmpawd i ganfod union aliniad cwmpawd y fynedfa, a mynegi hynny fel term cwmpawd 16 pwynt.

Adeiladwyd nifer o siambrau claddu cynhanesyddol i alinio gyda chodiad yr haul neu fachlud yr haul adeg heuldro'r haf neu'r gaeaf. Gallai disgyblion ymchwilio i ba adeg o'r flwyddyn y byddai'r haul yn disgleirio'n uniongyrchol i mewn i'r siambr gladdu y maen nhw'n ei hastudio, adeg codiad yr haul neu fachlud yr haul.

Gweithgaredd categorieiddio deunyddiau

Gall disgyblion gasglu deunyddiau o ardal benodedig o amgylch y safle (heblaw am y cerrig sy'n rhan o'r heneb!), a phenderfynu sut i osod y gwrthrychau mewn categorïau gwahanol, i ddarparu'r data mwyaf defnyddiol. Er enghraifft, gellid categorieiddio gwrthrychau yn ôl deunyddiau — pren, carreg, planhigyn, plastig, metel; yn ôl siâp neu bwysau; neu yn ôl rhai naturiol a rhai sydd wedi'u cynhyrchu.

Gallai disgyblion gyflwyno a dadansoddi'r data gan ddefnyddio graffiau a siartiau gwahanol, ar ôl eu hymweliad.

Gweithgaredd llinell amser ddynol

Gallai disgyblion lunio llinell amser ddynol yn y safle. Nid oes rhaid i'r llinell fod yn syth (mae'n ddibynnol ar y gofod sydd ar gael), ond gallai nodi rhai o'r dyddiadau canlynol:

- Cyfnod Paleolithig
- Cyfnod Mesolithig
- Cyfnod Neolithig
- Oes Efydd
- Oes Haearn
- OC 43 Rhufeiniad yn cyrraedd
- OC 343 Rhufeiniaid yn gadael
- OC 410 Sacsoniaid yn cyrraedd
- OC 784 Clawdd Offa yn cael ei adeiladu
- 877 Rhodri Mawr (Brenin cyntaf Cymru) yn marw
- 1066 Normaniaid yn cyrraedd, 1067 Castell Cas-gwent yn cael ei adeiladu
- 1282 Llywelyn ein Llyw Olaf (Tywysog olaf Cymru) yn marw
- 1404 Senedd gyntaf Cymru
- 1485 Harri VII yn cael ei goroni
- 1536 Deddfau Uno
- 1603 Iago I yn cael ei goroni
- 1837 Y Frenhines Victoria yn cael ei choroni
- 1914 Rhyfel Byd Cyntaf
- 1939 Ail Ryfel Byd
- 1969 y dyn cyntaf ar y lleuad
- 1998 sefydlwyd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Dylai'r bylchau rhwng y plant yn y llinell amser ddynol helpu'r disgyblion i ddeall datblygiad cronolegol, a pha mor bell yn y gorffennol oedd y cyfnod Neolithig.



Gweithgaredd gwrando ar y seinwedd

1. Gofynnwch i'r disgyblion sefyll neu eistedd, a chau eu llygaid.
2. Gofynnwch i'r disgyblion wrando ar yr holl synau gwahanol y gallan nhw eu clywed, a phenderfynu o ba gyfeiriad y daw'r synau.
3. Gofynnwch i'r disgyblion adnabod y synau modern, fel synau peiriannau neu offer pŵer; na fyddai wedi cael eu clywed yn ystod y cyfnod Neolithig.
4. Ar ôl munud (neu dau funud gyda dysgwyr mwy profiadol), gofynnwch i'r disgyblion restru'r holl synau modern hyn.
5. Gofynnwch i'r disgyblion adnabod y synau a fyddai wedi cael eu clywed yn ystod y cyfnod Neolithig. Heriwch nhw i gau allan unrhyw synau modern, a cheisio dychmygu eu bod wedi mynd yn ôl mewn amser, ac i geisio canolbwyntio ar y synau o'r cyfnod Neolithig.

Trafodaeth lawn — beth mae gwrando ar y seinwedd yn dweud wrthym am y byd modern a'r byd Neolithig? A yw'r disgyblion yn credu bod mwy neu lai o sain heddiw nag yn yr adeg Neolithig? A oedd y disgyblion yn teimlo bod unrhyw synau yn arbennig o ddymunol, neu'n annymunol? Ydyn nhw'n gallu esbonio pam eu bod yn teimlo fel hyn am y sain?



Plentyn yn gwrando ar y seinwedd

Gweithgaredd cuddio a chwilio

Er mai pobl Neolithig oedd y ffermwyr cyntaf, roeddynt yn parhau i hela; roedd adar ac anifeiliaid gwyllt yn ffynonellau bwyd pwysig. Mae'r weithred o guddio a chwilio yn efelychu gweithgareddau hela — chwilio am ysglyfaeth, cuddio fel ag i beidio â dychryn yr ysglyfaeth. Tra eu bod yn cuddio, mae disgyblion yn gallu "tiwnio i mewn" i'w hamgylchedd.

Diffiniwch derfynau diogel i chwarae'r gêm o'u mewn, ac yna trafodwch a chytunwch ar y rheolau cyn dechrau. Pethau i'w hystyried:

- Faint o'r chwaraewyr sy'n chwilio, a faint sy'n mynd i guddio?
- Lle caiff y chwaraewyr guddio?
- Am ba hyd y mae'n rhaid i'r chwilwyr aros cyn dechrau chwilio am y chwaraewyr coll?
- A yw chwaraewyr sydd wedi cael eu darganfod yn dod yn chwilwyr ychwanegol, neu'n gwylio ac yn aros hyd nes bod pawb wedi'u darganfod?
- A oes amoch angen arwydd clywadwy i ddiwedd y gêm (rhag ofn bod argyfwng yn digwydd)?



Cuddio a chwilio!



Gweithgaredd Sanctaidd neu le arbennig

Mae'n debyg bod adeiladwyr Neolithig yr henebion hyn yn eu codi mewn lleoliadau a oedd yn cael eu hystyried yn rhai arbennig neu sanctaidd. Gallai disgyblion chwilota o fewn ardal benodedig o amgylch y siambr gladdu am eu lle personol mwyaf sanctaidd neu arbennig. Gallech eu herio i ddarganfod lle sy'n teimlo'n wahanol i'r cyffredin. Gallai hwn fod y lle tawelaf, y lle gyda'r golygfeydd gorau, y lle mwyaf cudd neu'r lle sy'n edrych yn wahanol am ryw reswm. Gofynnwch iddynt aros yn y lle hwnnw yn dawl, am 5 munud. Gofynnwch i'r disgyblion sut oeddent yn teimlo, a beth sylweddolion nhw am y lle, yn ystod y gweithgaredd hwn.



Pobl ifanc yn cymryd rhan yn y gweithgaredd llinell amser dynoliaeth

Gweithgaredd Lluniau Llonydd

Mewn grwpiau, gallai disgyblion greu 'lluniau llonydd' o olygfeydd Neolithig.

Awgrymiadau ar gyfer golygfeydd:

- hela
- ffermio
- coginio
- adeiladu
- seremoni

Gallech roi golygfeydd i grwpiau o ddysgwyr. Ar ôl trafod sut i gyfleu eu thema, gallai pob grŵp greu eu 'llun llonydd', yna'i arddangos i weddill y dosbarth; gallai'r dysgwyr eraill wedyn geisio dyfalu beth yw thema'r llun llonydd.

Gweithgaredd chwarae rôl

Mewn grwpiau, gallai'r disgyblion chwarae rôl golygfeydd Neolithig cyffredin, a pherfformio eu chwarae rôl trwy gyfrwng meim.

Awgrymiadau ar gyfer golygfeydd:

- gofalu am anifeiliaid
- plannu a chynaeafu cnydau
- hela
- defodau (fel dewis arweinydd newydd i'r llwyth)

Gallech roi golygfeydd i grwpiau o ddysgwyr. Ar ôl ymarfer eu chwarae rôl/meim, gallai pob grŵp berfformio eu meim o flaen gweddill y dosbarth; gallai'r dysgwyr eraill wedyn geisio dyfalu pa olygfa sy'n cael ei hactio.

Gweithgareddau ar ôl ymweliad — rhifedd

Mesur

Gan ddefnyddio'r data a gasglwyd yn ystod yr ymweliad â'r safle, gall disgyblion edrych ar y mesuriadau a amcangyfrifwyd ac yna ar fesuriadau gwirioneddol y cerrig a'u trefnu o'r lleiaf i'r mwyaf.

Gallai disgyblion fesur a phwyso cerrig bach (cerrig sydd o amgylch yr ysgol neu rai y mae'r athro yn dod i'r ysgol) a gallai disgyblion ddefnyddio'r data hwn a mesuriadau cerrig mawr y siambr gladdu (a gymerwyd yn ystod yr ymweliad â'r safle) i amcangyfrif pwysau cerrig y siambr gladdu. A yw'r cerrig yn rhy drwm i'w symud yn rhai o'r ffyrdd y gallai'r disgyblion fod wedi'u hawgrymu yn ystod yr ymweliad â'r safle?

Creu llinell amser

Gallai disgyblion ymchwilio dyddiadau sy'n gysylltiedig â'r heneb, gan gynnwys dyddiadau cloddio, dyddiadau darganfod arteffactau, neu bethau eraill a ddigwyddodd ar y safle. Gallai disgyblion gyfrifo'r gwahaniaethau rhwng dyddiadau yn y gorffennol a'r dyddiad presennol, a chyfrifo faint o amser sydd rhwng y dyddiadau arwyddocaol ar y llinell amser.



Siambr claddu Trefignath, Ynys Môn



Gweithgareddau ar ôl ymweliad — llythrennedd

Mae llawer o'r safleoedd Neolithig yng Nghymru yn gysylltiedig gyda mythau a chwedlau, ac mae'n debyg bod y manau llawn dirgelwch hyn wedi ysbrydoli straeon dros y canrifoedd. Dywedir yn aml fod y Tylwyth Teg yn dawnsio ar y safleoedd ar adegau penodol o'r flwyddyn, ac mae straeon eraill yn cyfeirio at gewri a/neu'r Brenin Arthur. Mae'r gweithgareddau canlynol yn parhau â'r traddodiad o ddefnyddio'r manau hyn i ysbrydoli pobl i greu straeon.

Creative writing – Addasu stori sydd eisoes yn bodoli

Gallai dysgwyr ymchwilio i ganfod os oes unrhyw straeon neu chwedlau sy'n gysylltiedig â'r safle Neolithig y maen nhw'n ei astudio. A oes yna stori neu chwedl y gallan nhw ei haddasu trwy roi'r stori mewn cyd-destun modern, neu trwy newid un neu fwy o elfennau'r stori.

Creative writing – Creu stori neu chwedl newydd

Gallai dysgwyr weithio'n unigol, mewn grwpiau bwrdd neu fel dosbarth cyfan i greu stori neu chwedl newydd. Gallent gynnwys cymeriadau mytholegol fel y Tylwyth Teg, cewri, Brenin Arthur, ayyb. Gallai hefyd fod yn stori sy'n cynnwys cymeriadau dychmygol neu real o'r gorffennol. Tybed allai'r safle fod wedi'i ddefnyddio fel cuddfan? Tybed os digwyddodd unrhyw droseddau yno? Ai man cyfarfod dirgel ydoedd?

Creative writing – Creu drama

Gallai dysgwyr droi eu stori yn sgript ddramatig, a'i pherfformio yn yr ysgol neu ar y safle Neolithig.

Creative writing – Creu drama radio

Gallai dysgwyr addasu'r sgript ddramatig i greu drama radio — pa elfennau sy'n cael eu cyfleu gan symudiadau yn y ddrama a fyddai'n rhaid eu cynnwys yn neialog y ddrama radio? A fyddai'r cymeriadau sydd eisoes yn bodoli yn cyfleu'r elfennau hyn, neu a fyddai'r dysgwyr yn dymuno creu adroddwr? Gallai lleisiau gwahanol bortreadu cymeriadau gwahanol, a gallai'r plant hefyd greu effeithiau sain priodol.

Creative writing – Creu cerdd

Gallai'r dysgwyr ddefnyddio ysbrydoliaeth y safle i greu darn o farddoniaeth. Gan ddefnyddio eu synhwyrau, ac ar ôl rhestru geiriau i ddisgrifio'r safle, gallai'r dysgwyr lunio cerdd am eu heneb Neolithig leol.

Creative writing – Creu cerdd sydd wedi'i hysbrydoli gan stori ar grëwyd neu stori sy'n gysylltiedig â'r safle

Gan ddefnyddio'r chwedl fel ysbrydoliaeth, gallai'r dysgwyr ysgrifennu darn o farddoniaeth yn dathlu'r stori neu'n disgrifio golygfa arbennig o'r stori.

Ysgrifennu gyda diben

- Gallai dysgwyr ysgrifennu taflen wybodaeth i'r safle, neu daflen wybodaeth i ymwelwyr ifanc.
- Gallai dysgwyr ymchwilio hanes y safle ac ysgrifennu erthygl i gylchlythyr neu gylchgrawn hanes, e.e. cylchgrawn aelodau'r Clwb Archaeolegwyr Ifanc.
- Gallai dysgwyr greu tudalen we sy'n helpu eraill i ddeall y safle.
- Gallai dysgwyr ysgrifennu llythyrau yn mynegi safbwyntiau gwahanol. Gellid rhoi sefyllfa iddynt fel cais cynllunio i adeiladu archfarchnad (neu stad o dai, neu ganolfan hamdden) ar y tir gerllaw'r heneb.

Gallai dysgwyr gymryd rolau cymeriadau neu grwpiau sydd o bosibl â safbwyntiau cryf o blaid neu yn erbyn y cais, e.e. cymdeithas hanes lleol, perchnogion cartrefi cyfagos, aelodau Cadw, perchnogion siopau lleol, unigolion gyda diddordeb brwd mewn hanes lleol neu chwaraeon, perchnogion busnes lleol, ayyb.

Gallai disgyblion ysgrifennu llythyrau yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cais i bapur newydd lleol / Aelod Cynulliad lleol / Aelod Seneddol lleol, yn mynegi barn eu cymeriad ar y cais, a dadleuon o blaid ac yn erbyn y cais yn unol â safbwyntiau eu cymeriad.

Gallai disgyblion baratoi sgriptiau yn mynegi safbwyntiau eu cymeriad, a chwarae rôl mewn dadl ar y testun.



Gweithgareddau ar gyfer ail ymweliad â'r safle — dychmygu a chreu defod gladdu Neolithig

Cyflwyniad — ceisio creu profiad Neolithig dilys

Dylid sicrhau bod y disgyblion yn deall bod y 'seremoni ddefodol' yn cynnwys 'perfformiad', ond bod natur y perfformiad hwn yn wahanol i'r math o berfformiad y byddant o bosibl wedi'i lwyfannu ar lwyfan yr ysgol. Mae'r seremonïau defodol Neolithig yn debygol o fod wedi dilyn fformat a oedd yn adnabyddus i'r 'gynulleidfaoedd' yn yr un modd ag y mae seremonïau crefyddol modern yn gyfarwydd i gynulleidfaoedd heddiw.

Cynlluniwyd yr amcanion dysgu i alluogi'r disgyblion i ddychmygu a phrofi sut fath o deimlad oedd bod yn rhan o berfformiad seremonïol ar eu safle yn ystod y cyfnod Neolithig.

Dylai disgyblion geisio dychmygu a chredu eu bod yn rhan o lwyth Neolithig. Mae symudiadau, synau a mynegiant wyneb penodol yn llai pwysig na'r disgyblion yn ymddwyn yn barhaus fel eu bod yn rhan o seremoni Neolithig. Os ydy disgybl unigol yn

teimlo'r angen yn sydyn i wyro oddi wrth y 'sgript' neu'r perfformiad, yna dylid annog hyn, cyn belled â'u bod yn parhau i ymddwyn fel eu bod yn berson Neolithig.

Mae ffocws y gweithgaredd hwn ar yr agwedd a'r dychmygu yn hytrach nag ar synau neu symudiadau penodol. Mae gallu creu'n fyrfyr hefyd yn clymu gyda'r nod o ganolbwyntio meddyliau'r disgyblion ar y presennol. Mae canolbwyntio ar y presennol yn eu rhyddhau rhag poeni am y "cam nesaf" ac yn eu galluogi i geisio treiddio meddwl gŵr neu wraig o lwyth Neolithig.

Mae gwranddo ar synau o natur yn ystod y perfformiad, fel y gwynt yn y coed a thrydar yr adar, yn helpu'r disgyblion i ganolbwyntio ar y presennol ac ymgorffori'r synau hyn i'w seremoni Neolithig. Mae'n bosibl iawn hefyd y byddai synau o natur wedi cael eu hystyried yn sanctaidd yn y cyfnod Neolithig ac yn ymgorffori negeseuon o'r byd arall. Felly, mae rhoi gwerth arnynt yn ystod perfformiad y disgyblion yn dilyn eu profiad ymhellach.



Ail-gread Neolithig o ddefod offrymu Neolithig

Gweithgareddau

Lluniadu/peintio

Gallai disgyblion ymchwilio celfyddyd Baleolithig a Neolithig mewn llyfrau ac ar y we. (Mae celfyddyd Baleolithig yn bennaf ffigurol, a chelfyddyd Neolithig yn bennaf haniaethol.) Yn dilyn eu hymchwili, gallai'r disgyblion drafod beth mae patrymau Neolithig yn ei gynrychioli.

Gallai disgyblion wneud lluniadau neu beintiadau trwy arsylwi ar y ffotograffau. Gallan nhw hefyd greu eu patrymau eu hunain ar ffurf patrymau Neolithig, ac esbonio beth mae eu patrymau yn ei gynrychioli.

Creu llestri

Gallai disgyblion ymchwilio crochenwaith cynhanesyddol a bicer, a lluniadu eu hoff siapiau crochenwaith.

Gallai disgyblion ddefnyddio'r ymchwil a wnaethant ar siapiau crochenwaith cynhanesyddol i'w helpu gyda'r llestri y maen nhw'n eu gwneud, a defnyddio'r lluniadau a'r peintiadau a wnaethant o batrymau cerrig fel ysbrydoliaeth wrth greu patrymau i'w harysgrifio ar eu llestri.

Bydd dysgwyr yn fwy llwyddiannus wrth greu llestri os yw oedolyn yn arddangos y broses cyn iddyn nhw ddechrau gwneud eu llestri eu hunain.

Deunyddiau angenrheidiol: clai modelu sy'n sychu'n naturiol, offer clai, sgwariau o gardbord.

Cyfarwyddiadau:

Gofynnwch i bob plentyn eistedd o flaen arwyneb llyfn yn barod i wneud eu crochenwaith.

Rhowch ddarn o glai modelu i bob plentyn (tua maint eirinen), wedi'i rollo'n belen. Dylid gwasgu'r clai yn siâp cylch sydd tua 5mm o drwch. Dyma fydd gwaelod y llestr:



Crochenwaith torchog wedi'i wneud â llaw yn sychu yn yr haul

Rhowch y gwaelod ar y sgwâr o gardbord — mae hyn yn rhwystro'r llestri rhag glynu yn y bwrdd ac yn golygu bod modd eu symud ar ôl eu cwblhau.

Cymerwch belen o glai a'i rholio'n siâp neidr neu "dorch" a ddylai fod ychydig yn fwy trwchus na phensil, ac o leiaf mor hir â diamedr gwaelod y llestr.

Gwasgwch y dorch i'r darn gwaelod. Torrwch unrhyw ddarn o'r dorch sydd dros ben ar ôl gorchuddio cylchyn y gwaelod. Llyfnwch yr uniad tu allan a thu mewn.

Parhewch i osod y torchau o du mewn y llestr gan sicrhau nad yw'r uniadau yn union uwchben ei gilydd. Ar ôl ychwanegu pob darn newydd, gwasgwch y clai ynghyd o du mewn y darn, trwy wthio clai o'r dorch uchaf i'r dorch o dan a llyfnhau'r arwyneb, wrth gynnal y llestr gyda'r llaw arall er mwyn sicrhau nad yw'n colli ei siâp.

Llyfnwch y tu allan — defnyddiwch ychydig o ddŵr os yw'r clai yn dechrau sychu.

Unwaith ei fod yn llyfn, defnyddiwch bensiliau neu offer clai i greu dyluniadau ar arwyneb y llestr.

Rhowch y llestri ar sil ffenestr heulog i galedu (mae'n bosibl hefyd eu rhoi mewn popty).



Person ifanc mewn gwisg o'r cyfnod gyda'i grochenwaith torchog sych

Gweithgaredd actio stori

Os yw'r disgyblion wedi cynnal y gweithgaredd 'creu drama' trwy ddatblygu stori yn sgript ddramatig, gallent ymarfer a pherfformio eu drama ar y safle.

Ysgrifennu gyda phwrrpas/TGCh

Gallai disgyblion drafod beth ddylid ei gynnwys ar boster sy'n hysbysebu digwyddiad, a chreu rhestr wirio i sicrhau bod testun eu poster yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol.



Disgyblion yn chwarae rôl — Rhyfelwr Neolithig

Gan weithio'n unigol neu mewn grwpiau, gallai disgyblion ddrafftio testun i boster sy'n hysbysebu eu perfformiad cyn penderfynu ar y testun gorffenedig. Yna, gallent ddylunio poster gan ddefnyddio meddalwedd cyhoeddi a mewnosod y testun yn y dyluniad.

Gallai'r dosbarth drafod y dyluniadau poster amrywiol a phenderfynu pa boster fyddai'r hysbyseb fwyaf effeithiol i'w perfformiad. Byddai'n rhaid i ddisgyblion esbonio'r rhesymau dros eu dewis — pam mae un poster yn fwy effeithiol nag un arall? A yw'n fater o ddewis delwedd neu liw, neu'r defnydd o benawdau neu iaith berswadiol?

Gellid dosbarthu'r poster buddugol i rieni a'i osod ar hysbysfyrddau cymunedol.

Creu sgôr graffig

Gallai disgyblion greu sgôr graffig gan ddefnyddio patrymau Neolithig fel ysbrydoliaeth.

Mae'r cyfarwyddiadau cam wrth gam canlynol yn awgrymu un ffordd o droi'r patrymau yn sgôr graffig.

- Dangoswch i'r dysgwyr ddelweddau amrywiol o wahanol batrymau Neolithig, gan ddefnyddio llyfrau neu'r rhyngwyd.
- Tynnwch sylw at natur haniaethol y gwaith celf.
- Heriwch y disgyblion i greu eu patrymau haniaethol eu hunain ar bapur gan ddefnyddio pensil.



Sgôr graffig

- Trafodwch beth tybed fyddai ystyr y patrymau hyn i bobl Neolithig. Ydyn nhw'n fapiau, math o ysgrifennu, arwyddion, gweledigaethau, tonnau sain neu luniau o'r bywyd tragwyddol?
- Gofynnwch i ddisgyblion ddehongli ychydig o'r gwaith celf gan ddefnyddio synau lleisiol. Sut byddai patrwm igam ogam yn wahanol i linellau tonnog?
- Gallai disgyblion ddefnyddio eu gwaith celf fel sgôr graffig a defnyddio synau lleisiol i ddehongli'r gwaith celf. Yn y llun, mae'r dysgwr yn defnyddio effaith atseinio trwy'r microffon ac yn dehongli ei waith celf gan ddefnyddio synau lleisiol.
- Heriwch y dysgwyr i greu sgôr graffig newydd o batrymau math Neolithig haniaethol a'u dehongli trwy sain. Ym mha ffordd roedd yn wahanol creu patrymau gan wybod eu bod yn mynd i'w defnyddio fel sgôr graffig?



Creu sgôr graffig o batrymau Neolithig

Gallai dysgwyr hefyd ddefnyddio offerynnau taro a/neu fflwtiau i wneud y synau ar y sgôr graffig.

Gallai dysgwyr wrando ar gerddoriaeth ei gilydd a defnyddio 'hetiau meddwl' fel gweithgaredd o'r fframwaith sgiliau i ymateb i'r hyn y maen nhw wedi'i glywed o wahanol bersectif.

Creu defod gladdu Neolithig — gweithgareddau cerdd, dawns a drama

Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau, a rhowch rôl wahanol i bob grŵp. Gofynnwch i grwpiau o ddysgwyr gynllunio'r symudiadau a defnyddio coreograffi i ddylunio'r symudiadau sy'n cyd-fynd â'u rôl.

Er enghraifft, gellid amlinellu'r rolau canlynol:

Cerddorion — Bydd y cerddorion yn chwarae'r drymiau ac offerynnau taro. Mae'n rhaid iddynt gyfansoddi gwahanol rythmau i gyfeilio i wahanol rannau'r seremoni.

Dawnswyr — Gellid rhannu'r dawnswyr yn wahanol grwpiau gan ddibynnu ar nifer y plant sy'n perfformio. Mae'n rhaid i bob grŵp gynllunio dilyniant o symudiadau. Gallai'r gwahanol rythmau a grëwyd gan y cerddorion ysbrydoli'r ddawns neu wrth gwrs gallai'r ddawns ysbrydoli'r cerddorion.

Torwyr llestri — Dylai'r torwyr llestri ddylunio a pherfformio rhan torri llestri'r seremoni. Dylid gwneud hyn yn ddefodol a gallai fod yn theatrig iawn. Sut mae'r llestri yn mynd i gael eu torri? Pa synau a symudiadau ddylai gyd-fynd â hyn. Fel rhywbeth gwahanol i ddarnau eraill mwy rhythmig y seremoni, gallai'r darn torri llestri gyd-fynd â synau lleisiol meddal a/neu synau chwibanu. Gellir cael cymysgedd o synau lleisiol a synau'r fflwt.

Mae'n bwysig cofio y gall fod angen ysgubo darnau mân o grochenwaith ar ôl y perfformiad rhag ofn y byddant yn achosi perygl iechyd a diogelwch i aelodau'r cyhoedd a fydd yn ymweld â'r safle yn y dyfodol.

Tywyswyr ysbrydion anifeiliaid — Nod y gweithgaredd hwn yw annog dysgwyr i fabwysiadu cyfeiriad meddwl gwahanol. Mae newydd-deb hyn, sef y gallu i ymddwyn yn wahanol yn agwedd bwysig ar y broses. Fel y dywedodd un dysgwr:

"Rydym yn cael bod yn wyllt a direol, ac ymddwyn yn wahanol ac mae hynny'n helpu fy nychymyg"

Mae'n bosibl bod pobl Neolithig yn credu bod ysbrydion anifeiliaid yn eu tywys neu fod modd iddynt hyd yn oed ddod yn anifeiliaid yn ystod defodau hud a lledrith. Gofynnwch i ddysgwyr yn y grŵp hwn ddynewared neu gynrychioli gwahanol anifeiliaid a fyddai wedi bodoli yn ystod y cyfnod Neolithig, e.e. eryrod, eirth, bleiddiaid a hyddod, trwy ddefnyddio ystumiau a synau lleisiol.

Gellid perfformio'r holl symudiadau ar ddwy droed a'u hymgorffori yn y perfformiad defodol. Gallai cynrychioliad dramatig o'r metamorffosis o'r ffurf ddynol i'r ffurf anifeiliaid hefyd fod yn rhan o'r arddangosiad hwn.



Disgyblion yn ail-greu seremoni gladdu Neolithig yn siambr gladdu Trefnath, Ynys Môn

© Cadw, Llywodraeth Cymru (Hawlfraint y Goron), 2013



Barclodiad y Gawres, Ynys Môn





Bodowyr, Ynys Môn





Bryn Celli Ddu, Ynys Môn





Capel Garmon, Conwy





Carreg Coetan Arthur, Sir Benfro





Din Dryfol, Ynys Môn





Dyffryn Ardudwy, Gwynedd





Llugwy, Ynys Môn





Parc le Breos, Abertawe





Pentre Ifan, Sir Benfro





Prysaeddfed, Ynys Môn





Llwyneliddon, Bro Morgannwg





Tinkinswood, Bro Morgannwg





Trefignath, Ynys Môn





Tŷ Newydd, Ynys Môn

